



Y sail gyfreithiol

Elusennau ac ymglyfreitha: y sail gyfreithiol

Datganiad rhagarweiniol

- (a) Mae'r ddogfen hon yn ceisio crynhoi barn y Comisiwn Elusennau ('y comisiwn') o'r gyfraith sy'n sail i'w gyhoeddiad Elusennau ac ymglyfreitha - canllaw i ymddiriedolwyr (CC38) ('y canllaw') ac felly mae'n defnyddio iaith fwy technegol.
- (b) Nid yw'r dadansoddiad yn bwriadu bod yn grynhoad cyfreithiol cynhwysfawr, ond yn hytrach yn fan cyfeirio defnyddiol i ymddiriedolwyr, eu cynghorwyr a'r cyhoedd. Mae'n adlewyrchu'r gyfraith ac ymarfer fel y maent ym [Mawrth] 2015, ac nid yw'n gyfreithiol - rwymol. Dylid cofio ei fod yn cynnig dadansoddiad cyffredinol o'r gyfraith ond bydd addasrwydd y dadansoddiad i achos arbennig yn dibynnu ar holl ffeithiau'r achos hwnnw.
- (c) Bydd y comisiwn yn mabwysiadu'r un ymagwedd â'r llysoedd a'r Tribiwnlys wrth gymhwyso'r gyfraith.
- (ch) Mae cyfeiriadau at y 'Ddeddf' yn golygu 'Deddf Elusennau 2011'.
- (d) Gweler polisi'r Comisiwn Elusennau ar adfer ac adennill cronfeydd elusennol a gamddefnyddiwyd neu a gollwyd i elusen drwy dor-ymddiriedaeth.

1. Am beth mae'r canllaw hwn

Mae ystod eang o achosion cyfreithiol y gallai elusen ymwneud â nhw, er enghraifft:

- dwyn neu amddiffyn achos sifil
- achos ('achos elusennol') sy'n ymwneud â materion mewnol yr elusen
- achosion prawf i hyrwyddo neu hwyluso gwaith yr elusen
- her gyfreithiol o benderfyniad y comisiwn (gweler y canllaw ar y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Elusennau))

Mae'r canllaw hwn yn esbonio'r egwyddorion cyfreithiol sy'n llywodraethu penderfyniadau ymddiriedolwyr ynghylch dwyn neu amddiffyn achos sifil neu bleidio. Mae'n trafod y camau gweithredu eraill a allai fod ar gael iddynt. Mae hefyd yn delio â'r rheolau ar gyfer dwyn dosbarth arbennig o achos a elwir yn 'achos elusennol'. Yn olaf, mae'n disgrifio'r gwahanol fathau o achosion y gellir eu dwyn yn erbyn y comisiwn.

2. Dwyn neu amddiffyn achos cyfreithiol - egwyddorion cyffredinol i elusennau

Crynodeb

Dylai ymddiriedolwyr geisio cyngor cyfreithiol cyn dwyn neu amddiffyn achos cyfreithiol. Mae'n rhaid iddynt ystyried:

- teilyngdod eu hachos
- y gobaith o lwyddo
- gwerth yr hawliad
- y costau (ariannol ac adnoddau eraill) o ddwyn yr achos os ydynt yn ennill neu'n colli
- gallu'r ochr arall i dalu costau neu iawndal
- y niwed tebygol i'r elusen (yn nhermau ariannol ac enw da) os yw'n ennill yr achos neu beidio

2.1 Mae dyletswydd gyffredinol gan ymddiriedolwyr i weithredu er lles gorau eu helusen. Mae dyletswydd arnynt i ddiogelu ac, os oes angen, adennill asedau y mae'r elusen yn berchen arnynt.

Mae'r dyletswyddau hyn yn codi o dan:

- y gyfraith gyffredin
- statud (gweler, yn arbennig, Deddf Ymddiriedolwyr 2000¹ a Deddf Cwmnïau 2006²)
- dogfen lywodraethol yr elusen

I gael manylion pellach am ddyletswyddau ymddiriedolwyr gweler y canllaw newydd ar ddyletswyddau ymddiriedolwyr a'r sail gyfreithiol

2.2 Gweithredir ar y dyletswyddau hyn pan fydd honiadau o dor-ymddiriedaeth gan un neu ragor o'r ymddiriedolwyr, honiadau o dorri contract neu esgeulustod, neu anghydfod ynghylch ffiniau, neu hawliadau gan gyn weithwyr, neu hawliadau gan ymddiriedolwyr i adennill arian a gollwyd i'r elusen. Mewn unrhyw achosion o'r fath, mae'n bosib y bydd rhaid i'r ymddiriedolwyr ystyried a ddylent ddwyn neu amddiffyn achos cyfreithiol.

1 Mae Adran 1 o Ddeddf Ymddiriedolwyr 2000 yn nodi fel a ganlyn:

“(1) Pryd bynnag y mae'r ddyletswydd o dan yr is-adran hon yn gymwys i ymddiriedolwr, rhaid iddo/iddi arfer y fath gofal a sgil ag y bo'n rhesymol yn yr amgylchiadau, gan roi ystyriaeth arbennig i:

(a) unrhyw wybodaeth neu brofiad arbennig sydd ganddo neu ganddi neu y mae'n honni sydd ganddo neu ganddi, a
(b) os yw'n gweithredu fel ymddiriedolwr wrth ymgymryd â busnes neu broffesiwn, unrhyw wybodaeth neu brofiad arbennig y mae'n rhesymol ei ddisgwyl gan rywun sy'n ymgymryd â'r math hwnnw o fusnes neu broffesiwn.

(2) Yn y Ddeddf hon mae'r ddyletswydd o dan is-adran (1) yn cael ei galw'n ddyletswydd gofal.”

2 Mae Adran 170 o Ddeddf Cwmnïau'i 2006 yn nodi fel a ganlyn:

“(1) Mae'r dyletswyddau cyffredinol a nodir yn adrannau 171 i 177 yn ddyletswyddau cyfarwyddwr cwmni i'r cwmni.

(3) Mae'r dyletswyddau cyffredinol yn seiliedig ar reolau cyfraith gyffredin arbennig ac egwyddorion ecwitiol fel y bont yn gymwys mewn perthynas â chyfarwyddwyr ac yn weithredol yn lle'r rheolau a'r egwyddorion hynny ynghylch y dyletswyddau sy'n ddyledus i gwmni gan gyfarwyddwr.

(4) Caiff y dyletswyddau cyffredinol eu dehongli a'u cymhwyso yn yr un ffordd â rheolau cyfraith gyffredin neu egwyddorion ecwitiol, a rhoddir sylw i'r rheolau cyfraith gyffredin cyfatebol a'r egwyddorion ecwitiol wrth ddehongli a chymhwyso'r dyletswyddau cyffredinol.”

2.3 Mae'r penderfyniad ynghylch dwyn neu amddiffyn achos ar ran elusen yn fater i'r ymddiriedolwyr elusen, gan weithredu er lles gorau'r elusen yn unig, ar ôl ystyried a allai ffordd arall o weithredu fod ar gael iddynt. Nid oes unrhyw awdurdodaeth gan y comisiwn i ddatrys anghydfodau sifil rhwng elusennau a thrydydd partïon. Yn ogystal, nid oes unrhyw awdurdodaeth ganddo i bennu teitl cyfreithiol neu ecwitiol rhwng elusennau a thrydydd partïon (gweler adran 70(1) o'r Ddeddf).

2.4 Nid oes angen cael ei ganiatâd i ddwyn achos cyfreithiol gan neu yn erbyn elusen (heblaw 'achos elusennol' sy'n ymwneud â materion mewnlol elusen - gweler adran 5)).

2.5 Pan fydd ymddiriedolwyr elusen yn gorfod penderfynu p'un ai i gychwyn achos neu beidio, mae'n rhaid iddynt geisio ac ystyried cyngor cyfreithiol priodol ynghylch teilyngdod eu hachos a'r gobaith y bydd yn llwyddo. Efallai y bydd angen iddynt gael cyngor arbenigol arall, er enghraifft gan gyfrifwyr neu syrfewyr, i ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen i wneud penderfyniad priodol. Mae'n rhaid iddynt bwysu a mesur gwerth yr ased y maent yn ceisio ei ddiogelu neu ei adennill yn erbyn y risgiau o ymglyfreitha. Mae'n rhaid iddynt ystyried materion fel cryfderau cymharol eu hachos ac unrhyw amddiffyniad neu wrth-hawliad a allai godi; gallu'r amddiffynnydd arfaethedig i weithredu ar unrhyw ddyfarniad a allai gael ei wneud yn ei erbyn, a oes digon o arian gan yr elusen i dalu costau ac iawndal a allai gael eu dyfarnu yn eu herbyn.

2.6 Mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr elusen ystyried a fyddai 'dyn busnes cyffredin doeth' yn cymryd y risgiau hynny wrth reoli materion tebyg ei hun.

"As a general rule, a trustee sufficiently discharges his duty if he takes in managing trust affairs all those precautions which an ordinary prudent man of business would take in managing similar affairs of his own".

Speight v Gaunt (1883) 9 App Cas 1, 19 per Lord Blackburn. 2

2.7 Mae achos cyfreithiol yn cynnwys graddfa fwy neu lai o risg a gall canlyniadau colli achos fod yn ddrud iawn, nid yn unig yn ariannol, ond hefyd o ran y niwed i enw da a rhoddwyr siomedig. Gall y canlyniadau hyn godi hyd yn oed os yw'r elusen dan sylw yn ennill yr achos.

Gall darpar roddwyr rannu'r siom a fynegir gan Robert Walker J, yn British **Diabetic Association v Diabetic Society Ltd [1995] 4 All ER 812** at 816, sy'n disgrifio gweithredu peri cael rhwng elusennau fel:

"a deplorable, even scandalous thing to occur. Charities solicit donations from the public (and for a charity such as the association fund-raising is quite big business, as its accounts show) in the expectation that donations will be spent on furtherance of the charity's purposes".

2.8 Nid yw'r ffaith bod yr ymddiriedolwyr wedi cael cyngor cyfreithiol sy'n datgan bod achos cryf ganddynt yn ddigon ynddo'i hun i gyfiawnhau dwyn achos. Yn yr un modd, ni ddylid dwyn achos ar sail teimladau a buddion personol nac fel 'mater o egwyddor'. Yn ei hanfod mae'r penderfyniad i ddwyn achos yn benderfyniad sy'n seiliedig ar farn glir ynghylch buddiannau'r elusen.

2.9 Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr elusen allu dangos sut mae'r holl benderfyniadau ynghylch dwyn achos cyfreithiol er lles gorau'r elusen ac yn hyrwyddo dibenion yr elusen.

"Trustees of a charity within the limits of their authority, whatever they might be, should be guided only by a desire to promote the lasting interest of the charity."

AG v Kerr (1840) 2 Beav 420, 428

“A charity trustee, whether an individual or corporation, owes the charity an obligation of undivided, disinterested loyalty, to act solely for the benefit and in the best interests of the charity.”

Mountstar (PTC) Limited v Charity Commission for England and Wales First-tier Tribunal (Charity) General Regulatory Chamber CA/2013/0001 and 0003

2.10 Bydd y llysoedd yn ystyried y canlynol wrth adolygu’r penderfyniadau a wnaed gan yr ymddiriedolwyr:

- a oedd yr ymddiriedolwyr wedi gweithredu o fewn eu pwerau?
- oedden nhw wedi gweithredu mewn ewyllys da a dim ond er lles yr elusen?
- oedden nhw wedi sicrhau bod digon o wybodaeth ganddynt?
- oedden nhw wedi rhoi sylw i’r holl ffactorau perthnasol?
- oedden nhw wedi anwybyddu unrhyw ffactorau amherthnasol?
- oedden nhw wedi rheoli unrhyw wrthdaro buddiannau?
- oedden nhw wedi gwneud penderfyniadau sydd o fewn yr ystod o benderfyniadau y byddai’n rhesymol i gorff ymddiriedolwyr eu gwneud?

Am ragor o fanylion ar brosesau gwneud penderfyniadau ymddiriedolwyr gweler canllaw comisiwn - Eich penderfyniad chi: ymddiriedolwyr elusen a gwneud penderfyniadau.

2.11 Mae gan sefydliad corfforedig (er enghraifft cwmni, corfforaeth neu SCE) bersonoliaeth gyfreithiol ar wahân i’w aelodau a’i gyfarwyddwyr.

Yn 1612, dywedodd Syr Edward Coke yn **Case of Sutton’s Hospital** (1612) 10 Rep 32; 77 Eng Rep 960, 973:

“the Corporation itself is onely in abstracto, and resteth onely in intendment and consideration of the Law; for a Corporation aggregate of many is invisible, immortal, & resteth only in intendment and consideration of the Law; and therefore it cannot have predecessor nor successor. They may not commit treason, nor be outlawed, nor excommunicate, for they have no souls, neither can they appear in person, but by Attorney. A Corporation aggregate of many cannot do fealty, for an invisible body cannot be in person, nor can swear, it is not subject to imbecilities, or death of the natural, body, and divers other cases.”

Bydd cwmni, fel person cyfreithiol ar wahân, yn atebol am unrhyw rwymedigaethau y mae ei gyfarwyddwyr a’i weithwyr yn eu creu ar ei ran. Byddai hyn yn cynnwys unrhyw atebolrwydd sy’n codi o her neu amddiffyniad cyfreithiol. Achos cynnar iawn sy’n dangos hyn yw **Edmunds v Brown and Tillard** (1668) 83 ER 385-387.

2.12 Nid oes gan sefydliad anghorfforedig (er enghraifft ymddiriedolaeth neu gymdeithas anghorfforedig) bersonoliaeth gyfreithiol unigol a rhaid i achos cyfreithiol yn erbyn yr elusen gael ei ddwyn neu ei amddiffyn yn enw’r ymddiriedolwyr elusen. Er enghraifft **North London Mosque v Policy Exchange and another** [2010] [2010] EWCA Civ 526).

2.13 Wrth ystyried dwyn achos cyfreithiol, dylai ymddiriedolwyr ystyried y mater o indemniad ar gyfer costau (gweler adran 4).

3. Dewisiadau eraill i ddwyn neu amddiffyn achos cyfreithiol

Crynodeb

- mae pŵer gan ymddiriedolwyr i gyfaddawdu hawliad cyfreithiol
- cyn dwyn neu amddiffyn achos cyfreithiol, dylent ystyried y posibilrwydd o ddull amgen o ddatrys anghydfod, yn enwedig negodi neu gyfryngu
- efallai y bydd angen cymorth y comisiwn ar ymddiriedolwyr i roi ar waith ateb a gafodd ei negodi neu ei gyfryngu
- dylai elusennau ystyried cynnwys gweithdrefnau yn eu dogfennau llywodraethol ar gyfer delio ag anghytundebau ac anghydfodau mewnol

3.1 Efallai y bydd modd i elusen ddiogelu neu adennill eiddo heb fynd i'r llys ei hun. Er enghraifft, os yw unigolyn yn cael ei ddedfrydu'n euog o ladrata o'r elusen, mae pŵer gan y llys troseddol i orchymyn bod yr unigolyn yn talu iawndal. Mewn achos o'r fath, byddai'n rhaid i'r ymddiriedolwyr sicrhau eu bod nhw'n dweud wrth yr heddlu. Bydd rhaid iddynt roi manylion i'r heddlu am y golled neu'r difrod y mae'r elusen wedi'i ddioddef a gallu rhoi tystiolaeth. Bydd yr heddlu yn rhoi'r wybodaeth hon i'r Gwasanaeth Eryl y Goron a fydd yn gwneud y cais yn y llys.

3.2 Dylid ystyried ymgyfreitha fel y dewis olaf pan fydd pob dewis arall wedi methu. Nid yw hynny'n golygu, fodd bynnag, y dylid osgoi ymgyfreitha ar bob cyfrif. Mae'n dra phosib y bydd llwyddiant camau gweithredu eraill yn dibynnu ar allu darbwyllor' ochr arall o benderfyniad yr elusen i ymladd ei chornel, trwy'r llysoedd os oes angen. Gall fod angen ffeilio hawliad yn y llys hefyd er mwyn i elusen gadw ei hachos dros weithredu os oes materion cyfyngiad³. Gellir osgoi ymgyfreitha trwy gyfaddawd wedi'i negodi neu drwy un o'r wahanol ddulliau amgen o ddatrys anghydfod.

Llunio cyfaddawd cyfreithiol

3.3 Mae pŵer statudol gan ymddiriedolwyr elusen anghorfforedig i gyfaddawdu hawliadau cyfreithiol o dan adran 15 o Ddeddf Ymddiriedolwyr 1925⁴. Fel arfer bydd erthyglau cwmni elusennol yn cynnwys pŵer penodol i gyfaddawdu. Hyd yn oed os nad yw'n gwneud hynny, ym marn y comisiwn, gall y pwerau rheoli cyffredinol a roddir i gyfarwyddwyr cwmni gan yr erthyglau cymdeithasu gael eu cymryd i gynnwys pŵer o'r fath. Rhaid i'r pŵer gael ei arfer yn unol â dyletswyddau'r cyfarwyddwyr o dan adrannau 170 i 177 o Ddeddf Cwmnïau 2006 sy'n cynnwys dyletswydd i arfer gofal, sgil a diwydrwydd rhesymol.

3.4 Mae cyfaddawdu yn cynnwys arfer disgrisiwn. Ni all ymddiriedolwyr hawlio eu bod wedi cyfaddawdu hawliad dim ond trwy fabwysiadu agwedd oddefgar o adael pethau i fod.

3.5 Gall y comisiwn roi ei gyngor ffurfiol o dan adran 110 i elusen o ran 'telerau' cyfaddawd. Nid yw cyngor Adran 1.10 yn rhoi unrhyw bŵer i'r ymddiriedolwyr wneud y penderfyniad i gyfaddawdu neu awdurdodi unrhyw benderfyniad sy'n cael ei wneud.

3 Mae cyfnodau cyfyngiad yn gosod cyfyngiadau amser ac mae'n rhaid i barti ddwyn hawliad neu roi rhybudd o hawliad i'r parti arall neu'r partion eraill o fewn y terfyn amser hwnnw. Mae cyfnodau cyfyngiad yn cael eu gosod gan statud, a Deddf Cyfyngiadau Achosion 1980 yn bennaf. Mae cyfnodau gwahanol ar gyfer mathau gwahanol o weithredu. Pan fydd partion sy'n rhan o anghydfod yn cynnal trafodaethau setlo ac mae diwedd y cyfnod cyfyngiad yn agosáu, gall hawlydd gychwyn achos sy'n cael ei ohirio wedi hynny er mwyn i drafodaethau setlo allu parhau.

4 Fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Ymddiriedolwyr 2000, s 40(1), Sch 2, Pt II, para 20.

Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod

3.6 Y ddau fath mwyaf cyffredinol o ddulliau amgen o ddatrys anghydfodau yw:

- negodi, lle mae'r partion yn ceisio datrys yr anghydfod eu hunain, neu drwy eu cynghorwyr
- 'cyfryngu', lle mae trydydd parti annibynnol yn gweithredu fel hwylusydd rhwng y partion

3.7 Mae darpariaethau sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i'r partion ddatrys anghydfodau trwy ddull amgen yn nodwedd gyffredin o contractau masnachol. Maent yn adlewyrchu atyniad dull amgen o ddatrys anghydfod pan fydd modd, mewn egwyddor, ddatrys anghydfod trwy drafodiad ariannol, a dim ond y partion yn y contract sydd â budd yn y canlyniad.

3.8 Wrth gwrs, bydd anghydfodau 'o fewn' elusennau yn aml yn codi materion o bryder cyfreithiol a rheoleiddiol i'r comisiwn (ac i eraill efallai). Er hynny, gall cyfryngu fod yn effeithiol iawn mewn achosion o'r fath, oherwydd gall materion ehangach yn ymwneud ag enw da ac ymrwymiad i'r achos elusennol gael eu darparu ar eu cyfer yn y broses, sy'n gallu delio â'r holl faterion yn yr anghydfod yn hytrach na dim ond materion cyfreithiol neu ariannol. Yn ogystal, nid yw dull amgen o ddatrys anghydfod yn canolbwyntio ar ennill neu golli ond ar ddatrys y broblem sylfaenol, gan ystyried nodau byrdymor a hirdymor. Mae'n rhoi cyfle i'r partion fod yn rhagweithiol ac yn gadarnhaol ynghylch datrys yr anghydfod yn hytrach na bod yn adweithiol ac yn amddiffynnol, sy'n tueddu i ddiwydd yn aml iawn mewn ymglyfreitha.

3.9 Gall llys wrthod ystyried mater hyd nes bod cyfryngu neu ddull amgen o ddatrys anghydfod wedi digwydd a gall wneud gorchymyn bod partion yn rhoi cynnig ar ddull amgen o ddatrys anghydfod yn gyntaf os ydynt yn barod i wneud hynny neu beidio.

"In this case very substantial sums of money have been spent: on litigation without achieving a resolution. The spending of money on this kind of litigation does not promote the religious purpose of this charity. It is time for mediation. No more money should be spent from the assets of this charity until:

(1) the Charity Commissioners have authorised the proceedings and counterclaim and

(2) all efforts have been made to secure a mediation of this dispute in the manner suggested"

Muman and others v Nagasena [1999] 4 All ER 178

3.10 Gall y llys feirniadu partion nad ydynt yn barod i roi cynnig ar ddull amgen o ddatrys anghydfod.

"Without the need for the vast costs which must have been incurred in this case...the parties should have been able to come to a sensible conclusion as to how to dispose of the issues which divided them. If they could not do this without help, then an independent mediator should have been recruited to assist. That would have been a far cheaper course to adopt. Today, sufficient should be known about ADR to make the failure to adopt it, in particular where public money is involved, indefensible."

Cowl v Plymouth City Council [2001] EWCA Civ 1935

Rôl y comisiwn

3.11 Gall cyfaddawdu, cyfryngu a dull amgen o ddatrys anghydfod gynnig atebion sy'n anghyson â chyfansoddiad yr elusen. Os nad oes pŵerr gan yr elusen naill ai yn ei dogfen lywodraethol neu yn y gyfraith gyffredinol, efallai y gall roi'r pŵer perthnasol i'w hunan neu addasu pŵer sy'n bod. Fel arall, gall fod angen i'r comisiwn ymyrryd trwy gynllun neu (yn fwy aml) trwy orchymyn o dan adran 105 o'r Ddeddf⁵.

3.12 Bydd rhaid i atebion sy'n cynnwys gwaredu eiddo real gydymffurfio â Rhan 7 o'r Ddeddf. Os oes angen gorchymyn y comisiwn, mae'n debygol o gefnogi ateb a dderbynnir gan y dadleuwyr. Mae achosion yn fwy anodd os yw'r ateb a gynigir yn anghyson ag egwyddor gyfreithiol, megis y rheol yn erbyn ymddiriedolwyr yn gwneud elw o'u hymddiriedolaeth yn absenoldeb yr awdurdod angenrheidiol.

3.13 Mewn rhai achosion, gan gynnwys achosion o fudd cyhoeddus mawr, colled trwy achosion digon difrifol o dor-ymddiriedaeth a'r rhan sy'n cynnwys symiau mawr o aran, gall fod gan y comisiwn fudd rheoleiddiol⁶ neu gallai ddymuno ystyried dwyn achos cyfreithiol at sylw'r cyhoedd gyda chysyniad y Twrnai Gwladol i adennill yr arian a gollwyd i'r elusen⁷. Y Twrnai Gwladol yw'r 'parens patriae' ac felly gall y gwarchodwr elusennau ac elusennau yn gyffredinol hefyd ddymuno cymryd camau pellach.

Taliadau ex gratia

3.14 Gall ymddiriedolwyr elusen, gyda chydsyniad y comisiwn o dan adran 106 o'r Ddeddf, benderfynu bod rhwymedigaeth foisol arnynt i wneud taliad i drydydd parti neu ildio hawl gyfreithiol er nad oes unrhyw hawliad cyfreithiol neu amddiffyniad posibl ar ran y trydydd parti. Mae'r adran hon yn rhoi'r un pŵer i'r comisiwn â'r Twrnai Gwladol i roi'r awdurdod i ymddiriedolwyr elusen gymhwyso eiddo elusennol, neu ildio hawl yr elusen i dderbyn yr eiddo, os nad oes pŵer ganddynt i wneud hynny⁸. Mae'r comisiwn yn arfer y pŵer hwn o dan oruchwyliaeth y Twrnai Gwladol, ac mae'n amodol ar ei gyfarwyddiadau a'i oruchwyliaeth⁹.

Cadarnhaoedd Cross J. yn **Re Snowden** [1970] Ch.700 fod y pŵer hwn gan y llys a'r Twrnai Gwladol:

"I am satisfied that the court and the Attorney-General have power to give authority to charity trustees to make ex gratia payments out of funds held on charitable trusts. It is, however, a power which is not to be exercised lightly or on slender grounds but only in cases where it can be fairly said that if the charity were an individual it would be morally wrong of him to refuse to make the payment."

I gael rhagor o wybodaeth am daliadau ex-gratia a phŵer y comisiwn o dan adran 106 gweler ei ganllaw Taliadau ex gratia gan elusennau (CC7) a'r Cyfarwyddyd Gweithredol Taliadau ex-gratia gan elusennau - OG539.

5 "(1) Yn amodol ar ddarpariaethau'r adran hon, os yw'n ymddangos i'r comisiwn bod unrhyw achos a gynigir neu a ystyrir wrth weinyddu elusen er lles yr elusen, gall y Comisiwn trwy orchymyn sancsiynu'r achos hwn, pe byddai hynny o fewn y pwerau y gellir eu harfer gan yr ymddiriedolwyr elusen neu beidio wrth weinyddu'r elusen."

6 Gall hyn gynnwys rhoi cyngor rheoleiddiol i ymddiriedolwyr ar gyflawn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, ystyried cychwyn ymchwiliad statudol a defnyddio ei phwerau diogelu ac unioni; gorchymyn bod yr ymddiriedolwyr yn ceisio cyngor cyfreithiol ar y camau a allai fod ar gael iddynt; penodi ymddiriedolwyr yn eu lle nad ydynt yn ymwneud â'r achos neu sydd heb unrhyw wrthdaro sy'n gallu ystyried sut i adennill yr eiddo; penodi rheolwr interim i indemnio'r golled ac ystyried adennill yr eiddo neu rewi neu atal gwaredu eiddo'r elusen.

7 O dan adran 114 o'r Ddeddf.

8 Er mwyn rhoi'r pŵer i'w hunain i ddadhawlio, roedd rhaid i'r sefydliad baratoi a hyrwyddo Bil ac yna Deddf Alcoholigion Anhysbys 1986; Gweler Atodiad D, Adroddiad y Comisiynwyr Elusennau [1986].

9 Adran 106(3) o'r Ddeddf.

4. Diogelu yn erbyn atebolrwydd i dalu costau

Crynodeb

Os yw elusen ar ei cholled o ganlyniad i gymryd rhan mewn achos cyfreithiol, gall yr ymddiriedolwyr fod yn atebol yn bersonol am y golled. Gall ymddiriedolwyr gael rhywfaint o ddiogelwch yn erbyn atebolrwydd ymlaen llawn trwy:

- ofyn i'r llys am orchymyn **Re Beddoe**
- gofyn i'r comisiwn eu hawdurdodi i ddwyn (neu amddiffyn) yr achos

4.1 Gall ymddiriedolwyr ddefnyddio cronfeydd yr elusen dim ond i dalu costau sydd wedi codi'n briodol ac yn rhesymol wrth weinyddu'r elusen.

Yn **Re Grimthorpe** [1958] Ch. 615 dywedodd Danckwerts J:

"It is a commonplace that trustees, who take the onerous and sometimes dangerous duty of being trustees, are not expected to do any of the work at their own expense; they are entitled to be indemnified against the costs and expenses which they incur in the course of their office; that necessarily means that such costs and expenses are properly incurred and not improperly incurred. The general rule is quite plain: they are entitled to be paid back all that they have had to pay out."

O ran ymddiriedolaethau, mae'r sefyllfa wedi'i darparu ar ei chyfer bellach yn adran 31(1) o Ddeddf Ymddiriedolwyr 2000.

"Mae ymddiriedolwr -

(a) â'r hawl i gael ei ad-dalu o gronfeydd yr ymddiriedolaeth, neu

(b) yn gallu talu allan o gronfeydd yr ymddiriedolaeth

unrhyw dreuliau sydd wedi codi'n briodol ganddo/ganddi wrth weithredu ar ran yr ymddiriedolaeth."

4.2 Gall fod yn fwy anodd i ymddiriedolwyr sy'n ymglyfreitha'n aflwyddiannus i ddangos bod eu costau cyfreithiol wedi codi'n briodol. Maent yn debygol o'i chael hi'n fwy anodd byth i ddangos bod y costau a ddyfarnwyd yn eu herbyn yn bersonol wedi codi'n briodol. Nid yw'r ffaith eu bod nhw wedi ceisio, a gweithredu yn unol â chyngor cyfreithiol yn ddigonol yn ddo'i hun i ddangos bod y costau wedi codi'n briodol (wedi'r cwbl eu penderfyniad nhw nid eu cynghorwyr cyfreithiol oedd ymglyfreitha)¹⁰. Yn absenoldeb yswiriant, neu ddarpariaeth yn eu dogfen lywodraethol sy'n cyfyngu ar atebolrwydd neu'n eithrio atebolrwydd, mae'r ymddiriedolwyr mewn perygl o fod yn atebol yn bersonol am y costau. Weithiau, bydd barn y llys yn adlewyrchu bod talu'r costau yn fater i'r barnwr ei benderfynu, er enghraifft, nid yw'n broses awtomatig lle mae costau'r achos cyfreithiol wedi'u cwmpasu gan gronfeydd yr elusen. Gall y llys orchymyn fod yr ymddiriedolwyr yn talu costau o'r fath yn bersonol¹¹.

4.3 Gall ymddiriedolwyr ddiogelu eu hunain rhag y risg hwn o ymglyfreitha ymlaen llaw trwy:

- wneud cais i'r llys am orchymyn **Re Beddoe**, neu
- gofyn bod y comisiwn yn arfer ei ddisgresiwn i roi cyngor o dan adran 110 o'r Ddeddf.

¹⁰ Gweler *Re Beddoe*. *Downes v Cottam* [1893] 1 Ch. 547, y cyfeirir ato ym mharagraff 4.4 isod.

¹¹ Er enghraifft *Attorney General v Daugars* [1864] 22 Beav. 622.

4.4 Mae gorchymyn **Re Beddoe** yn awdurdodi ymddiriedolwyr i ddwyn neu amddiffyn achos a defnyddio arian yr elusen at y diben hwnnw.

Yn **Re Beddoe. Downes v Cottam [1893] 1 Ch. 547** dywedodd Lindley J.:

“The principle of law to be applied appears unmistakably clear. A trustee can only be indemnified out of the pockets of his cestuis que trust against costs, charges, and expenses properly incurred for the benefit of the trust - a proposition in which the word “properly” means reasonably as well as honestly incurred. While I agree that trustees ought not to be visited with personal loss on account of mere errors in judgment which fall short of negligence or unreasonableness, it is on the other hand essential to recollect that mere bona fides is not the test, and that it is no answer in the mouth of a trustee who has embarked in idle litigation to say that he honestly believed what his solicitor told him, if his solicitor has been wrong-headed and perverse. Costs, charges, and expenses which in fact have been unreasonably incurred, do not assume in the eye of the law the character of reasonableness simply because the solicitor is the person who was in fault. No more disastrous or delusive doctrine could be invented in a Court of Equity than the dangerous idea that a trustee himself might recover over from his own cestuis que trust costs which his own solicitor has unreasonably and perversely incurred merely because he had acted as his solicitor told him.

If there be one consideration again more than another which ought to be present to the mind of a trustee, especially the trustee of a small and easily dissipated fund, it is that all litigation should be avoided, unless there is such a chance of success as to render it desirable in the interests of the estate that the necessary risk should be incurred. If a trustee is doubtful as to the wisdom of prosecuting or defending a lawsuit, he is provided by the law with an inexpensive method of solving his doubts in the interest of the trust. He has only to take out an originating summons, state the point under discussion, and ask the Court whether the point is one which should be fought out or abandoned. To embark in a lawsuit at the risk of the fund without this salutary precaution might often be to speculate in law with money that belongs to other people.”

Ni chaiff unrhyw orchymyn ei wneud os na all ymgyfreitha fod o unrhyw fudd i'r ymddiriedolaeth.

4.5 Yn **Weth v Attorney General [2001] EWCA Civ 263** dywedodd Mummery LJ. wrth iddo wrthod apêl mewn perthynas ag indemnio costau:

“In brief, the position was that, even if the appeal against the appointment of the receiver was not hopeless, it was pointless. It was clearly not in the best interests of the charity to spend its funds on pointless litigation.”

4.6 Gall y barnwr roi gorchymyn sy'n cwmpasu'r cyfan neu ran o'r achos (er enghraifft, hyd at ddarganfod). Mae'n rhaid i'r Twrnai Gwladol fod yn barti i gais am orchymyn o'r fath ac mae'n rhaid i'r comisiwn roi ei gydsyniad i'r cais oherwydd ei fod yn “achos elusennol” (gweler mwy yn adran 5 o'r canllaw).

4.7 Wrth benderfynu p'un ai i roi'r awdurdod angenrheidiol neu beidio ar gyfer y cais, byddai'n rhaid i'r comisiwn wybod:

- pa ymwarded fyddai'n cael ei geisio yn yr achos arfaethedig
- pa gyngor y mae'r ymddiriedolwyr wedi'i gael ynghylch teilyngdod eu hachos

- ar ba sail y mae'r ymddiriedolwyr wedi dod i'r casgliad ei fod er lles yr elusen i ddwyn neu amddiffyn yr achos
- pam mae'r ymddiriedolwyr am gael y gorchymyn

4.8 Mae'r comisiwn wedi'i rwymo i beidio â rhoi awdurdod (heb reswm arbennig) os yw'r achos yn un y gall y comisiwn ddelio ag ef ei hun (adran 115(3) o'r Ddeddf). Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r comisiwn wedi gwrthod awdurdod i wneud cais am orchymyn **Re Beddoe** lle y teimlai y gallai awdurdodi defnyddio cronfeydd yr elusen ar gyfer ymgyfreitha trwy gyfrwng orchymyn o dan adran 105 o'r Ddeddf, neu trwy gyngor o dan adran 110. Fodd bynnag, drwy fabwysiadu'r ymagwedd, mae'r comisiwn serch hynny yn dilyn arferion y llys. Bydd rhaid i'r comisiwn fodloni ei hun y bydd dwyn yr achos o fydd i'r elusen. Bydd hynny'n cynnwys ystyried amrywiaeth o faterion gan gynnwys:

- cryfder achos yr ymddiriedolwyr, y pwrpas a gaiff ei gyflawni drwy ddwyn neu amddiffyn yr achos
- a yw'r ymddiriedolwyr wedi ystyried ffyrdd eraill o gyflawni'r diben hwnnw
- gallu'r elusen i dalu'r costau
- y risgiau o ymgyfreitha (nid yn unig yn nhermau ariannol, ond hefyd yn nhermau enw da a gwyrô'r elusen oddi ar ddilyn ei dibenion elusenol)

Mae'r comisiwn yn debygol o ddilyn arweiniad y llys trwy awdurdodi camau dilyniantol ac ar wahân yn yr ymgyfreitha.

4.9 Ni all gorchymyn adran 105 neu gyngor adran 110 gael effaith ôl-weithredol. Mae'n bosib na fydd awdurdod gan y llys neu'r comisiwn i ddwyn achos fod yn ddiogelwch absoliwt os yw'r ymgyfreitha yn cael ei gynnal mewn modd esgeulus.

4.10 Yn **Stanway v Attorney General [2000]** (heb ei awdurdod) gwahaniaethodd y Gwir Anrhydeddus Syr Richard Scott V.C. y cymhwysiad o Beddoe gan elusen o'i gymharu â gwneud hynny mewn perthynas ag ymddiriedolaeth breifat

"The public interest comes into play in considering what directions should be given on a Beddoes application involving a charity in a way which is absent where ordinary Beddoes' applications regarding private trusts are concerned."

5. Achos elusennol

Crynodeb

Gall achos cyfreithiol sy'n ymwneud â materion mewnol neu ddomestig elusen ('achos elusennol') gael ei ddwyn dim ond gyda chaniatâd y comisiwn neu'r llys a dim ond gan yr elusen ei hun, unrhyw ymddiriedolwyr elusen, neu unrhyw un sydd â diddordeb yn yr elusen. Yn achos elusen leol gall achosion o'r fath gael eu dwyn gan unrhyw ddau neu ragor o drigolion ardal yr elusen.

Bydd y comisiwn yn awdurdodi'r achos os yw o'r farn ei bod er lles yr elusen i'r mater gael ei ddyfarnu gan y llys.

Mae'r comisiwn wedi'i rwymo i wrthod rhoi caniatâd (yn absenoldeb rhesymau arbennig) os yw'n penderfynu y gall ddelio â'r mater ei hun drwy ddefnyddio ei bwerau statudol.

Hefyd gall y comisiwn wrthod rhoi caniatâd ar gyfer yr achos os yw'n penderfynu nad yw'r achos er budd yr elusen.

Mae cais am ganiatâd i ddwyn achos yn cael ei drin yn gyfrinachol ond os yw gorchymyn o dan adran 115 yn cael ei roi, bydd y comisiwn yn hysbysu'r Twrnai Gwladol sy'n rhaid bod yn barti i'r achos llys.

Os yw'r comisiwn yn gwrthod rhoi caniatâd, gellir apelio i farnwr yn yr Uchel Lys am awdurdod i gychwyn achos elusennol.

Nid yw caniatâd i ddwyn achos elusennol yn cynnwys caniatâd i ddefnyddio cronfeydd yr elusen i dalu'r costau o ddwyn yr achos hwnnw.

5.1 Mae achos elusennol wedi'i ddiffinio yn adran 115(8) o'r Ddeddf fel

"achosion mewn unrhyw lys yng Nghymru a Lloegr sy'n cael eu dwyn o dan -

(a) awdurdodaeth y llys mewn perthynas ag elusennau, neu

(b) awdurdodaeth y llys mewn perthynas ag ymddiriedolaethau a gweinyddu ymddiriedolaeth ar gyfer dibenion elusennol."

5.2 Mae achosion elusennol wedi cynnwys achosion i benderfynu a yw cyfarfod cyffredinol blynyddol yr elusen wedi cael ei gynnal yn briodol, er enghraifft, neu a yw'r ymddiriedolwyr wedi cael eu penodi'n briodol. Ar y llaw arall, fel arfer ni fydd materion yn ymwneud â chysylltiadau elusen â thrydydd partion yn cael eu hystyried yn achos elusennol, er enghraifft, achos sy'n cael ei ddwyn gan gyn weithiwr elusen gerbron y tribiwnlys cyflogaeth, neu anghydfod ffin â chymydog. Weithiau, er nad yw'r hawliad ei hun yn 'achos elusennol' gall y gwrth-hawliad godi materion sydd yn cael ei ystyried yn achos elusennol. Enghraifft o hyn yw **Muman and others v Nagasena [1999]** 4 All ER 178. Nid yw materion sy'n ymwneud â statws elusennol yn 'achos elusennol' o fewn diffiniad y Ddeddf.

5.3 Os oes unrhyw ansicrwydd, bydd y comisiwn yn llunio barn ynghylch a yw'r achos yn achos elusennol a gweithredu'n unol â hynny. Fodd bynnag, yn y diwedd, dim ond y llys all benderfynu a yw'r achos yn achos elusennol.

5.4 Yn **Rai and others v The Charity Commission for England and Wales** [2012] EWHC 1111 (Ch) mynegodd Norris J. ymagwedd y comisiwn:

“although the Chancery judge is exercising his or her own original (and not an appellate) jurisdiction, the fact that the Charity Commission has refused permission to bring the proceedings is part of the evidence. The prior decision of the Charity Commission is entitled to be accorded in an appropriate degree of respect because of the weight of expertise brought to bear on evaluating what is obviously a multi-factorial decision.”

5.5 Ar ôl penderfynu a yw'r ymgyfreitha yn 'achos elusennol' neu beidio o dan y Ddeddf, mae'r rôl sgrinio gan y comisiwn wrth arfer y pŵer sy'n seiliedig ar ddau fater o bryder. Y cyntaf yw y dylai elusennau beidio â chael eu blino gan lu o achosion anobeithiol. Yr ail yw, os oes anghydfod ynghylch materion mewnol yr elusen y gellir delio â nhw trwy'r pwerau a roddwyd i'r comisiwn, mae troi at y llys yn gost diangen ac anghyfiawndwy.

Esboniwyd pwrpas y prawf yn **Scott v National Trust** [1998] 2 All ER 705:

“This protective filter is intended to protect public officers, public bodies and charities from being harassed by a multiplicity of hopeless challenges ... The efficacy of the protective screen is, of course, enhanced by the need for the complainant to have a sufficient interest or an interest in the charity.”

5.6 Nid oes rhaid i achosion sy'n cael eu dwyn gan y Twrnai Gwladol gael eu hawdurdodi gan y comisiwn (gweler adran 115(6) o'r Ddeddf sydd hefyd yn datgymhwyso adran 115 ar gyfer achosion sy'n cael eu dwyn gan y comisiwn yn unol ag adran 114 o'r Ddeddf).

5.7 Mae'n rhaid i achosion elusennol mewn perthynas ag elusennau a esgusodir sydd â phrif reoleiddiwr gael awdurdodiad y comisiwn yn yr un ffordd ag ar gyfer elusennau cofrestredig ac elusennau a eithrir. Nid yw'r eithriad blaenorol o elusennau a esgusodir o'r darpariaethau achosion elusennol yn gymwys mwyach heblaw i elusennau a esgusodir sydd heb brif reoleiddiwr¹².

5.8 Mae'r comisiwn yn arfer ei ddisgresiwn yn sgil ei amcanion statudol, ei swyddogaethau a'i ddyletswyddau fel y manylir yn adran 14, 15 a 16 o'r Ddeddf, a'i ymagwedd yn gyffredinol at ddefnyddio ei bwerau rheoleiddio.

5.9 Y ffactorau a ystyrir fel arfer yw:

- ydy'r achos yn achos elusennol mewn gwirionedd ac a yw'r mater sy'n destun yr anghydfod wedi'i bledio'n briodol?
- oes partion priodol ac a oes gan y sawl sydd am ddwyn yr achos fudd cyfreithlon ym materion mewnol yr elusen?
- ydy'r gweithredu arfaethedig yn codi materion o sylwedd a ddylai gael sylw trwy'r llys?
- ydy'r mater sy'n destun yr anghydfod wedi cael ei ddwyn mewn ewyllys da?
- oes ffyrdd eraill o ddelio â'r materion, ac os oes, ydyn nhw wedi cael eu hystyried? All y problem sylfaenol gael ei datrys trwy'r comisiwn yn defnyddio ei bwerau ei hun?
- beth yw costau ymgyfreitha?
- beth yw gwerth yr asedau dan sylw (ariannol, enw da neu fel arall)?

12 Deddf Elusennau 2011 Atodlen 9 paragraff 21.

- fyddai rhoi neu wrthod gorchymyn i awdurdodi'r achos yn ymyrryd mewn ffordd anghymesur neu anghyfiawn â'r hawliau a ddiogelwyd gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998?
- ydy hi er lles yr elusen i'r achos fynd i'r llys?

Pwy all ddwyn achos elusennol?

5.10 Gall achosion elusennol gael eu dwyn gan:

- yr elusen
- unrhyw 'ymddiriedolwr elusen' (y sawl sydd â rheolaeth gyffredinol dros weinyddiad yr elusen)
- unrhyw 'unigolyn sydd â budd yn yr elusen'?
- unrhyw ddau neu ragor o drigolion ardal yr elusen os yw'n elusen leol¹³
- y Twrnai Gwladol, neu'r comisiwn yn gweithredu yn unol ag adran 114 o'r Ddeddf

5.11 Nid yw'r Ddeddf na'r llysoedd wedi cynnig diffiniad cynhwysfawr o'r ymadrodd 'unigolyn sydd â budd yn yr elusen'.

Gweler Lord Justice Nicholls yn *Re Hampton Fuel Allotment Charity* [1989] Ch 484, sub nom *Richmond upon Thames London Borough Council v Rogers* [1988] 2 All ER 761, CA:

"If a person has an interest in securing the due administration of a trust materially greater than, or different from, that possessed by ordinary members of the public as described above, that interest may, depending on the circumstances, qualify him as a 'person interested'."

5.12 Yn **Haslemere Estates Ltd v Baker** [1982] 3 All ER 525, [1982] 1 WLR 1109 penderfynodd Syr Robert Megarry V.-C. nad oedd cwmni a honnai fod ganddo gontract cyfrwymol ar gyfer rhoi prydles o dir yr elusen yn 'unigolyn â budd' yn yr elusen at ddiben achos elusennol.

"Now I do not aspire to define the meaning of the phrase 'any person interested in the charity' in this context. That I shall leave for others; I am merely concerned to find a safe resting place for my decision in this case. In my judgment the phrase, in its context, does not bear the wide meaning for which Mr. Scott and Mr. Burton contend. Many a person may be interested in the property of a charity without, for this purpose, being interested in the charity. I do not think that to contract with the trustees of a charity turns the contractor into a 'person interested in the charity,' even if the contract relates to land or other property of the charity. I do not think that the phrase includes every tenant of charity land, or those who have easements or profits or mortgages or restrictive covenants over charity land, or those who contract to repair or decorate charity houses, or those who agree to buy goods from the charity or sell goods to the charity. An interest which is adverse to the charity is one thing, an interest in the charity is another. Those who have some good reason for seeking to enforce the trusts of a charity or secure its due administration may readily be accepted as having an interest in the charity, whereas those who merely have some claim adverse to the charity, and seek to improve their position at the expense of the charity, will not. The phrase, I think, is contemplating those who are on the charity side of the fence, as it were, however much they may disagree with what is being done or not being done by or on behalf of the charity. The phrase does not refer to those who are on the other side of the fence, even if they are in some way affected by the internal affairs of the charity."

13 O dan adran 293 o'r Ddeddf:

"ystyr "elusen leol", mewn perthynas ag unrhyw ardal, yw elusen a sefydlwyd at y dibenion sydd -

(a) yn ôl eu natur, neu

(b) yn ôl ymddiriedolaethau'r elusen

wedi'u cyfeirio'n gyfan gwbl neu'n bennaf at fudd yr ardal honno neu ran ohoni."

5.13 Nid yw ysgutorion ewylllys sylfaenydd yr elusen yn unigolion sydd â budd yn yr elusen chwaith:

Bradshaw v University College of Wales, Aberystwyth [1987] 3 All ER 200, [1988] 1 WLR 190. dywedodd Mr Justice Hoffman:

“In my judgment, it is plain that the executors have no interest in this charity. Neither they nor the estate of Miss Lewis could in any sense be regarded as beneficiaries under any of the charitable purposes, nor could the land comprised in the conveyance in any circumstances revert to Miss Lewis’s estate. The executors, therefore, have no more interest in the charity than any other member of the public... Without, as Sir Robert Megarry V.C. said in the Haslemere case, in any way wishing to essay a definition of ‘any person interested,’ I do not consider that a person who could not in any circumstances be a beneficiary of the charity or take any interest under the trusts applicable to the property of the charity can be within that expression.”

5.14 Gweler hefyd **Gunning v Buckfast Abbey Trustees** (1994) Times, 9 Mehefin, lle y cafodd achos elusennol ei ddwyn gan rieni plant oedd yn mynychu ysgol annibynnol oedd yn cael ei rhedeg gan elusen, er bod berthynas dan gontract gan y rhieni â'r ysgol, nid oeddent yn erlyn ar y contractau hyn ond am sicrhau gweinyddiad priodol yr elusen. Er nad oedd y rhieni yn danysgrifwyr nac yn fuddiolwyr, roeddent yn unigolion â budd yn yr elusen oherwydd roedd dyletswydd foesol a chyfreithiol ganddynt o ran addysg eu plant, ac felly pryder y dylai'r elusen gyflawni ei swyddogaethau yn briodol a oedd yn fwy na phryder a fyddai gan aelod cyffredin o'r cyhoedd.

5.15 Mae'r achosion a benderfynwyd yn dangos nad yw unigolyn sy'n gwneud hawliad gwrthwynebus yn erbyn elusen (er enghraifft, rhywun sy'n ceisio gorfodi hawliad dan gontract yn erbyn yr elusen) yn 'unigolyn â budd'. Gall fod yn fuddiolwr yr elusen, neu'n aelod fod yn ddigon i wneud rhywun yn 'unigolyn â budd'. Gweler **R (Heather) v Leonard Cheshire Foundation** [2001] EWHC 429 (Admin). Fodd bynnag, mae llawer yn dibynnu ar yr amgylchiadau a thestun yr achos. Mae'n bosib na fydd sefyllfa unigolyn sy'n rhoi cymorth ariannol cymedrol i elusen genedlaethol fawr yn ddigonol. Ar y llaw arall, mae bron yn sicr y byddai sefyllfa unigolyn a sylfaenodd ac sy'n cyllido elusen leol yn ddigonol.

Materion eraill sy'n berthnasol i achos elusennol

5.16 Ydy'r camau gweithredu arfaethedig yn codi materion o sylwedd a ddylai gael sylw trwy'r llys? Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn a oes gwir angen datrys y broblem sydd wedi ysgogi'r achos. Os nad yw'r broblem yn amharu ar weithrediad yr elusen, ac os yw'r elusen yn cael ei gweinyddu gan unigolion sydd i'w gweld â hawl dda i fod yn ymddiriedolwyr ac sy'n cyflawni'r dyletswyddau sydd gan ymddiriedolwyr, mae'n bosib na fydd rheswm da iawn dros gael yr elusen i wynebu achos cyfreithiol. Nid yw rhoi cydsyniad o dan adran 115 o'r Ddeddf yn rhoi unrhyw farn ynghylch teilyngdod yr achos arbennig ei hun. Fodd bynnag, os yw'r comisiwn o'r farn nad yw'r achos wedi'i wneud yn y papurau ac ar y dystiolaeth mae'n bosib na fydd yn rhoi ei awdurdod.

5.17 Yn **Amrik Singh v Virender Pal Singh Sikka and others** [1998] LTA 98/6925/3 penderfynodd y llys fod angen awdurdod adran 115 ar gyfer yr holl ymwarded a geisiwyd:

Dywedodd Gibson LJ *“It is simply not good enough to say that proceedings generally have been authorised, still less that an allegation of fraud should be covered by a paragraph referring to further or other relief.”*

5.18 Mae Adran 115(4) yn darparu:

Nid yw'r adran hon yn ei gwneud hi'n ofynnol i gael gorchymyn ar gyfer dwyn achos -

(a) mewn achos neu fater arfaethedig; neu

(b) ar gyfer dwyn unrhyw apêl

Yn achos **Ford's Charity [1855] 3 Drew 324**, penderfynodd Syr Richard Kindersley VC¹⁴ nad oedd cynllun newydd ar gyfer datblygu ysgol newydd oedd heb gael ei ystyried cyn hyn gan y llys yn ffurfio mater arfaethedig, er i gynllun arall yn gysylltiedig â'r un cronfeydd elusennol gael ei ystyried felly. Penderfynodd y llys fod mater arfaethedig at ddibenion Deddf 1854 (y ddarpariaeth a ganfuwyd wedi hynny yn adran 115 o'r Ddeddf) yn golygu parhau â rhywbeth wedi'i gyfeirio gan y llys.

Yn **Young Geun Park v Tae Hyeon Cho and others** [214] EWHC 55 (Ch), penderfynodd y llys mewn achos lle roedd y mater canolog wedi cael ei benderfynu, sef gorfodi'r costau a ddyfarnwyd gan y llys, ei bod hi'n bosib i'r comisiwn awdurdodi'r camau gydag achos sy'n bod, er nad oedd yr achos cyfan wedi cael ei awdurdodi fel achos elusennol.

Dywedodd Cousins DJ *“In all the circumstances, I conclude that the order made by the Charity Commission was a permissible order, authorising the taking of a step in the existing proceedings, albeit that the order did not authorise the proceedings from their inception”*

5.19 Ar gyfer dewisiadau eraill i ymglyfreitha, gweler adran 3.

5.20 Weithiau bydd achos elusennol yn cael ei ddwyn i gael y math o ganlyniad y mae gan y comisiwn ei hun y pŵer i'w roi. Er enghraifft, mae'r comisiwn yn rhannu awdurdodaeth y llys i wneud gorchmynion i benodi ymddiriedolwyr neu sefydlu cynllun¹⁵.

5.21 Mewn achosion eraill, mae'n bosib nad oes gan y comisiwn bŵer i roi'r ymwarded penodol y mae'r ceisydd yn ei geisio. Er enghraifft, ni all y comisiwn benderfynu dilysrwydd camau sy'n cael eu cymryd wrth weinyddu elusen, megis a yw'r ymddiriedolwyr wedi cael eu penodi'n ddilys mewn etholiad cynhennus mewn cyfarfod cyffredinol blynyddol. Fodd bynnag, os mai'r broblem sylfaenol yw amheuaeth ddifrifol ynghylch a yw'r corff llywodraethu wedi cael ei benodi'n briodol, efallai y bydd modd i'r comisiwn ddelio â'r achos trwy ddefnyddio ei bwerau ei hun (er enghraifft, trwy hwyluso cynnal cyfarfod cyffredinol blynyddol arall lle mae modd ethol yr ymddiriedolwyr yn ddilys). Ni fyddai'r ymagwedd honno yn ateb y cwestiwn a oedd yr etholiad cynhennus yn ddilys yn gyfreithiol. Fodd bynnag, os yw'r ymddiriedolwyr yn cael eu hethol yn flynyddol, byddai'n anodd cyfiawnhau treulio amser, ymdrech ac adnoddau ar ateb y cwestiwn hwnnw.

¹⁴ O dan adran 17 o Ddeddf Ymddiriedolaethau Elusennol 1853.

¹⁵ Gweler adrannau 69 ac 80 o'r Ddeddf.

5.22 Hyd yn oed os oes modd delio â'r achos, mewn egwyddor, drwy ddefnyddio pwerau'r comisiwn, gall fod yn ddymunol i'r achos fynd i'r llys. Gallai'r llys fod yn fforwm mwy priodol ar gyfer datrys materion sy'n rhy ddadleuol a sylfaenol i natur yr elusen¹⁶. Gall yr achos godi pwynt newydd o'r gyfraith neu anghytundeb sylfaenol o ffaith y mae angen ei ddatrys unwaith ac am byth gan y llys. Gall difrifoldeb a phwysigrwydd y mater fod yn ddigon i gyfiawnhau awdurdodi'r achos.

Er enghraifft, os yw penderfyniad ymddiriedolwyr i gau sefydliad addysgol yn cael ei herio, bydd colli'r hyder a ddaw yn sgil y penderfyniad yn tanseilio'n gyflym iawn unrhyw ymdrechion i achub yr ysgol.

5.23 Os yw arfer pwerau'r comisiwn yn debygol o gymryd llawer o amser, gallai hyn fod yn rheswm arbennig dros awdurdodi'r achos (gan gymryd bod rhyw sail i'r her).

5.24 O dan adran 115(7) o'r Ddeddf, gall y comisiwn benderfynu ei fod yn ddymunol i achos cyfreithiol gael ei ddwyn gan y Twrnai Gwladol.

5.25 Mae rôl y comisiwn o dan adran 115 o'r Ddeddf yn ehangach na dim ond sgrinio achosion sydd heb sail gyfreithiol. Mae'r comisiwn o'r farn y dylai fod yn amharod i roi cydsyniad i achos sydd, er yn ddi-sail yn yr ystyr cyfreithiol, yn 'anobeithiol' yn yr ystyr na all fod unrhyw fudd i'r elusen trwy ddilyn yr achos. Yn yr enghraifft a drafodwyd cyn hyn, mae'n dra phosib nad oes gan yr elusen unrhyw fudd o gwbl yn nilysrwydd cyfreithiol etholiad cynhennus yr ymddiriedolwr, os yw cyfnod y swydd yr honnir i'r unigolyn gael ei ethol ar ei gyfer eisoes wedi dod i ben.

5.26 Wrth ddelio â cheisiadau ar gyfer gorchmynion adran 115, mae'n rhaid i'r comisiwn allu cyfiawnhau ei benderfyniad fel un sy'n cynnal cydbwysedd rhesymol a chymesur rhwng yr angen i ddiogelu cronfeydd elusennol rhag ymglyfreitha diangen a'r hawl i fynd ag achos i'r llys. Bydd y comisiwn yn awdurdodi achosion dim ond os yw'n fodlon eu bod er lles yr elusen.

5.27 Weithiau bydd achos yn codi'r cwestiwn a ellid disgwyl i'r llys ddatrys y broblem sydd wedi codi mewn gwirionedd. Os yw'r partïon i anghydfod yn amharod i gydweithredu â'i gilydd, mae'n bosib nad oes unrhyw ddyfodol i'r elusen yn ei ffurf bresennol ac y dylid ceisio rhyw ganlyniad arall. (Mewn rhai achosion, gall fod yn briodol i ofyn i'r llys rannu eiddo'r elusen rhwng y partïon - yn **Varsani and Others v Jesani and Others** [1998] All ER 273 roedd yr amgylchiadau ynghylch anghydfod rhwng dwy ochr mewn elusen yn cefnogi gwneud cynllun yn rhannu eiddo'r elusen).

5.28 I'r gwrthwyneb, mae'n rhaid i'r partïon fod yn ymwybodol y gall y llys boeni llawer mwy am ddiogelu lles gorau'r elusen a'i effeithiolrwydd yn y dyfodol na datrys yr holl faterion sy'n destun anghydfod. Weithiau caiff achos ei ohirio oherwydd bod y barnwr wedi penderfynu bod yr achos yn cynnwys achos elusennol a dylid gofyn i'r comisiwn roi caniatâd ar gyfer yr achos. Mewn achosion o'r fath, lle y mae'n rhoi caniatâd, mae hyn yn aml ar sail diwygiad o'r hawliad i nodi'r ymwared cyfraith elusennol a geisir.

5.29 Yn unol â hynny, er mwyn ystyried cais ar gyfer gorchmyn adran 115, mae'n rhaid i'r comisiwn gael copïau o'r dogfennau canlynol:

- y ffurflen hawliad ddrafft
- datganiadau ategol
- barn y cwmsler neu gyngor cyfreithiol arall ar deilyngdod yr hawliad a'r gobraith o lwyddo
- unrhyw ddogfennau perthnasol eraill

16 Gweler adran 70(8) o'r Ddeddf.

5.30 Bydd angen i'r comisiwn gael manylion am y canlynol hefyd:

- amcangyfrif o gostau'r achos
- gwerth yr ased(au) dan sylw (os yw'n briodol)
- gwybodaeth am gyllid yr elusen (os yw'r cais yn cael ei wneud gan neu ar ran yr elusen)
- gwerthusiad o'r buddion y disgwylir iddynt ddeillio i'r elusen o'r ymgyfreitha
- asesiad o'r risgiau i'r elusen o'r ymgyfreitha (gan gynnwys risgiau i enw da)
- y camau a gafodd eu cymryd i gyfaddawdu neu gyfryngu

5.31 Bydd y comisiwn yn cwestiynu hawliadau am ymwared sy'n ymddangos eu bod heb eu drafftio'n briodol. Bydd y comisiwn hefyd yn cwestiynu cyngor cyfreithiol ynghylch cywirdeb neu ddigonolrwydd os oes unrhyw amheuan ganddo. Fodd bynnag, wrth wneud gorchymyn, nid yw'r comisiwn yn cymeradwyo'r achos yn ffurfiol neu'n ymrwymo ei hun i farn am y canlyniad tebygol.

Cyfrinachedd

5.32 Yn gyffredinol bydd y comisiwn yn ystyried cyfathrebu rhwng ceiswyr ar gyfer gorchymynion adran 115 a'r comisiwn fel rhai cyfrinachol. Mae hyn yn rhannol oherwydd ei fod yn disgwyl cael manylion am y cyngor cyfreithiol (breintiedig cyfreithiol) y mae'r ceisydd wedi'i gael ar teilyngdod a'r gobaith o'r hawliad yn llwyddo, yn rhannol oherwydd bod y comisiwn am annog ceiswyr i fod yn agored ynghylch materion a allai, os cânt eu datgelu i'r ddarpar amddiffynwyr, niweidio eu hachos. Fodd bynnag, os yw cydsyniad yn cael ei roi, mae'n rhaid i'r comisiwn hysbysu'r Twrnai Gwladol o hyn gyda'r holl ddogfennau angenrheidiol a phriodol.

Rôl y Twrnai Gwladol

5.33 O dan Gyfarwyddyd Ymarfer 64A

“Mae'r Twrnai Gwladol yn barti angenrheidiol i bob achos elusennol, heblaw unrhyw achos a gychwynnir gan y Comisiynwyr Elusennau¹⁷, a rhaid iddo/iddi ymuno fel amddiffynnydd os nad yw'n hawlydd.”

5.34 Y sail resymegol ar gyfer y rheol ymarfer hon yw bod y Twrnai Gwladol yn cynrychioli budd y cyhoedd o ran gweinyddiad priodol elusennau. Mewn achosion lle mae'n ymddangos bod y Twrnai Gwladol yn annhebygol o gael ei alw arno/arni i helpu'r llys, neu lle y byddai cost ei gynrychiolaeth yn anghymesur o'i gymharu â'r swm dan sylw, gall ef neu hi fod yn barti ond peidio â chymryd rhan weithgar yn yr achos. Os yw'n barti neu beidio, mae pŵer gan y Twrnai Gwladol i wneud cais i'r llys i atal achos elusennol y mae'n ei ystyried i fod yn ormesol neu heb fod er lles yr elusen.

5.35 Mae dyletswydd gan y Twrnai Gwladol, lle y bo'n briodol, i ymyrryd at y diben o ddiogelu elusennau a rhoi cyngor a chymorth i'r llys wrth weinyddu'r ymddiriedolaethau elusennol. Gweler er enghraifft yr Arglwydd Macnaghten yn cyflwyno barn y Cyfrin Gyngor yn Wallis v. Solicitor-General for New Zealand [1903] A.C. 173 yn pp.181-182:

“It is the province of the Crown as parens patriae to enforce the execution of charitable trusts, and it has always been recognised as the duty of the law officers of the Crown to intervene for the purpose of protecting charities and affording advice and assistance to the court in the administration of charitable trusts.”

17 Gweler troednodyn 15.

Er mwyn i'r Twrnai Gwladol allu cyflawni dyletswyddau o'r fath bydd rhaid iddo fod yn barti i achos cyfreithiol sy'n ymwneud ag elusennau yn aml.

5.36 Categorïau o achosion sy'n cynnwys elusennau y gall y Twrnai Gwladol gael ei wahodd i gymryd rhan ynddynt a'r rolau y gall fod ganddo/ganddi mewn perthyn â'r rhain:

- rhoddion mewn ewyllysiau dadleuol
- a yw'r sefydliad/ymdiriedolaeth yn elusen neu a yw'r eiddo yn cael ei ddal ar ymdiriedolaethau elusennol
- llunio rhwymedigaethau elusennol sy'n bod
- cais i gyfarwyddwyr
- cais am orchymyn costau rhagbrydol
- diwygio cyfansoddiad sy'n bod

5.37 Os yw'n barti neu beidio, mae pŵer gan y Twrnai Gwladol i wneud cais i'r llys i atal achos elusennol y mae'n ei ystyried yn ormesol neu heb fod er lles yr elusen.

5.38 Mewn achosion eithriadol, os yw'r comisiwn yn cael deunyddiau gan y darpar amddiffynnwr, bydd yn ystyried y deunyddiau hynny dim ond yw'n cael eu darparu ar y sail y gellid eu datgelu i'r ceisydd.

Gwrthod

5.39 Os yw'r comisiwn wedi gwrthod cais am awdurdod i ddwyn achos elusennol, gall fod modd i'r penderfyniad hwnnw gael ei ailystyried gan y comisiwn. Nid apêl neu adolygiad o'i benderfynu cychwynnol yw hwn oherwydd bydd rhaid i'r ceisydd ddangos, trwy gynnig tystiolaeth newydd neu ddatl resymedig, y dylai'r cais am orchymyn adran 115 lwyddo oherwydd byddai hynny'n hyrwyddo dibenion yr elusen dan sylw.

5.40 Os yw'r comisiwn wedi awdurdodi achos elusennol, mae'n bosib y byddai rhywun a effeithir yn uniongyrchol gan y penderfyniad hwnnw (a fyddai'n cynnwys darpar amddiffynnydd) ofyn i'r penderfyniad gael ei wrthdroi os yw'n gallu darbwyllo'r comisiwn bod y penderfyniad wedi cael ei wneud ar gam neu drwy gamgynrychiolaeth neu fel arall heblaw cydymffurfio â'r gyfraith.

5.41 Er y gellir gweld penderfyniad y comisiwn i wrthod awdurdodi achos fel cyfyngiad ar hawl unigolyn i gael mynediad rhydd i'r llys a warentir gan Erthygl 6 o'r Confensiwn Hawliau Dynol, mae hawl i wneud cais dilynol i'r Uchel Lys o dan adran 115(5) o'r Ddeddf¹⁸.

O dan Ran 64 o'r Rheolau Trefniadaeth Sifil:

(1) Mae'n rhaid i gas i'r Uchel Lys o dan adran 33(5) [adran 115(5) erbyn hyn o dan Ddeddf 2011] o'r Ddeddf am ganiatâd i gychwyn achos elusennol gael ei wneud o fewn 21 diwrnod ar ôl i'r Comisiynwyr¹⁹ wrthod rhoi gorchymyn yn awdurdodi'r achos.

(2) Rhaid i'r cais gael ei wneud trwy gyhoeddi ffurflen gais Rhan 8, sy'n rhaid cynnwys yr wybodaeth a nodir yng Nghyfarwyddyd Ymarfer 64A.

18 "Pan fydd is-adrannau (1) i (4) yn gofyn i achos elusennol gael ei awdurdodi gan orchymyn y comisiwn, gall yr achos gael ei ystyried neu fynd rhagddo er gwaethaf hynny os, ar ôl i orchymyn gael ei geisio a'i wrthod, cafwyd caniatâd i ddwyn yr achos gan un o farnwyr yr Uchel Lys yn Is-adran y Siawnsri."

19 'Y comisiwn' erbyn hyn, o dan Ddeddf 2011.

(3) Mae'n rhaid i'r Comisiynwyr²⁰ fod yn amddiffynwyr i'r hawliad, ond nid oes rhaid cyflwyno'r ffurflen hawliad iddynt neu i unigolyn arall.

(4) Gall y barnwr sy'n ystyried y cais ofyn i'r Comisiynwyr²¹ ffeilio datganiad ysgrifenedig yn amlinellu eu rhesymau dros eu penderfyniad.

(5) Bydd y llys yn cyflwyno copi i'r ceisydd unrhyw ddatganiad wedi'i ffeilio o dan baragraff (4). (6) Gallai'r barnwr naill ai-

(a) rhoi caniatâd heb wrandawriad neu

(b) drefnu gwrandawriad

5.42 Nid oes unrhyw bŵer gan y comisiwn i estyn y cyfnod 21 diwrnod oherwydd mae hynny'n fater i'r Uchel Lys. Mae'r terfyn amser hwn yn gymwys os yw'r ceisydd wedi cychwyn gweithdrefn adolygu mewnol y comisiwn neu beidio.

5.43 Mae'r comisiwn yn amddiffynwyr i'r hawliad, ond nid oes rhaid cyflwyno'r ffurflen hawliad iddynt. Yn ymarferol, fel arfer ni fydd y comisiwn yn cymryd unrhyw ran yn yr achos. Mae'n arferol i'r comisiwn roi rhesymau ysgrifenedig dros wrthod awdurdod ar gyfer achos elusennol (a rhaid i gopi o'r rhesymau hynny gael eu ffeilio gyda'r ffurflen hawliad). Gall y barnwr ofyn i'r comisiwn ffeilio datganiad ysgrifenedig yn amlinellu'r rhesymau dros y penderfyniad. Nid yw'r ffaith bod ymddiriedolwyr elusen wedi cael gorchymyn adran 115 ynddo'i hun yn rhoi'r hawl iddynt gael eu hindemnio o gronfeydd yr elusen am y costau a ddaw iddynt o'r achos.

20 Gweler troednodyn 15.

21 Gweler troednodyn 15.

6. Achosion prawf

Crynodeb

Gall elusen ddwyn achos prawf yn erbyn corff cyhoeddus:

- os oes mater cyfreithiol arbennig y mae angen ei benderfynu
- bydd yn hyrwyddo dibenion yr elusen os yw'r mater yn cael ei benderfynu gan y llys
- os yw'r elusen wedi cael ei chynghori gan ei chyfreithwyr bod gobaith rhesymol o leiaf o lwyddo
- os yw'r ymddiriedolwyr wedi pwysu a mesur y gobaith o lwyddo yn erbyn canlyniadau methu (yn ariannol, ond hefyd o ran yr effaith ar yr elusen a'i dibenion elusennol)
- os yw'r ymddiriedolwyr wedi dod i'r casgliad, gan fabwysiadu ymagwedd' 'fasnachol', fod y manteision posibl yn fwy na'r risgiau

6.1 Mae'n bosib y bydd elusen yn gallu cyfiawnhau dwyn achos prawf i sefydlu beth mae'r gyfraith yn ei ddweud am fater arbennig os oes unrhyw ansicrwydd ynghylch y sefyllfa gyfreithiol, a bydd yn hyrwyddo dibenion yr elusen i ddatrys y cwestiwn hwn yn y modd y mae'r elusen yn dadlau.

6.2 Pan fydd unrhyw hawl ddynol yn cael ei hyrwyddo trwy gyfrwng ymgyfreitha, caiff hyn ei gyfyngu i sefydlu blaenoriaeth y cyfreithiau perthnasol sydd naill ai'n ffurfio rhan o gyfraith ddomestig y wladwriaeth dan sylw (gan gynnwys ar gyfer osgoi achos cyfreithiol amheus cyn unrhyw lys Cyfansoddiadol) neu'n rhwymol ar y gyfraith honno, ac os yw'r wladwriaeth dan sylw wedi gweithredu'r rhwymedigaeth cytundebol perthnasol er mwyn darparu llys cyfansoddiadol domestig cymwys sydd â'r grym i benderfynu hyn, neu lle mae tribiwnlys rhyngwladol, y mae ei gyfreithlondeb wedi cael ei gydnabod gan y wladwriaeth dan sylw, ac mae ei benderfyniadau fel mater o gyfraith ddomestig yn rhwymo cyfraith ddomestig y wladwriaeth dan sylw.

6.3 Byddai'n rhaid i'r ymddiriedolwyr elusen fodloni eu hunain, ar sail y cyngor cyfreithiol fod gobaith rhesymol ganddynt o lwyddo. Byddai'n rhaid iddynt fod wedi pwysu a mesur y gobaith o lwyddo (a'r manteision a ddaw o lwyddo) yn erbyn canlyniadau methu, yn ariannol ac o ran yr effaith ar yr elusen a'i dibenion elusennol. A byddai'n rhaid iddynt fod wedi dod i'r casgliad y byddai unigolyn busnes rhesymol a doeth yn meddwl bod y risg yn werth ei gymryd.

6.4 Nid yw achos prawf sy'n bodloni'r amodau hynny yn ceisio newid y gyfraith neu bolisi, ond yn hytrach egluro'r gyfraith. Nid yw'r ffaith mai'r prif amcan efallai yw newid ymddygiad corff cyhoeddus yn golygu bod dwyn yr achos yn weithred wleidyddol. Nid yw'r elusen yn ceisio cael corff cyhoeddus i newid ei bolisi - mae'n ceisio sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r gyfraith.

6.5 Fodd bynnag, os nad oes llawer o obaith o lwyddo - os mai'r hyn sydd o bwys i'r ymddiriedolwyr elusen yw bod yr achos yn cael ei ddwyn - os yw'r elusen yn ceisio codi cywilydd ar gorff cyhoeddus er mwyn iddo newid y gyfraith neu ei bolisi, mae'r elusen yn ymwneud â gweithgaredd gwleidyddol. Y prawf ar gyfer dwyn achos o'r fath fyddai:

- pa mor debygol yw hi y bydd ymgyfreitha yn darbwyllo'r awdurdod cyhoeddus i newid ei bolisi (yn wyneb natur anrhagweladwy ymgyfreitha)?

- pa mor debygol yw hi y bydd yr achos yn dod i ben (neu'n cael ei adrodd arno yn gyffredinol) mewn ffordd sy'n atgyfnerthu polisi cyfredol yr awdurdod cyhoeddus?
- beth yw'r risg i enw da'r elusen os yw'r ymgyfreitha yn arwain at ganlyniad nas dymunir?
- beth yw'r risg y caiff yr elusen ei beirniadu neu ei chosbi gan y llys ar gyfer dwyn achosion sy'n anobeithiol, gan greu costau diangen efallai i'r pwrs cyhoeddus?
- ydy costau a risgiau ymgyfreitha wedi'u cyfiawnhau gan y rhagolygon y bydd yr awdurdod cyhoeddus yn newid ei bolisi?
- oes ffyrdd eraill o gael yr un canlyniad heb i'r costau neu'r risgiau hyn godi?